Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn
Parc Elkington
Porth Tywyn
Sir Gaerfyrddin
SA16 0AU

23/09/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Porth Tywyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a darparu heriau priodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu**

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd gyda staff i ddatblygu diwylliant pwrpasol yn yr ysgol, lle mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r diwylliant hwn wedi bod yn fuddiol o ran sefydlu ymagwedd gydweithredol ac effeithiol at ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ymhlith disgyblion o bob oedran.
- Mae'r ysgol yn elwa ar dîm ymroddgar o arweinwyr a staff sy'n dangos disgwyliadau uchel ar gyfer datblygu lles disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae perthnasoedd yn gryf, yn barchus ac yn ofalgar.
- Mae staff yn gwerthfawrogi ymdrechion disgyblion ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol rheolaidd iddynt, gan helpu disgyblion i ymgysylltu'n bwrpasol ac yn hapus â bywyd yr ysgol. Ond nid yw adborth athrawon i ddisgyblion yn ystod gwersi bob amser yn canolbwyntio ar y cynnydd maent yn ei wneud a sut gallant symud eu dysgu ymlaen.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth o destunau dosbarth. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio cyfryngau digidol ac artistig i gyflwyno’u gwaith, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau’r rhain. Fodd bynnag, mae lefel yr her o fewn gweithgareddau dysgu yn parhau i fod yn rhy amrywiol, ar y cyfan.

**Sicrhau bod gweithgareddau monitro yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a’r asesu**

- Mae tîm arweinyddiaeth newydd yr ysgol wedi datblygu ethos tîm cadarnhaol sy’n cefnogi cydweithio a myfyrio proffesiynol gwerthfawr. Mae’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ar bob lefel gyfrannu at hunanwerthuso, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn craffu ar waith ac arsylwadau o addysgu.
- Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi a chroesawu cymorth a syniadau allanol i gynorthwyo â datblygu darpariaeth yr ysgol. Maent yn ymgysylltu’n gadarnhaol â phartneriaid allanol i sicrhau ansawdd eu prosesau hunanwerthuso a hyrwyddo datblygiad proffesiynol.
- Ond, at ei gilydd, nid yw’r ysgol bob amser yn gwerthuso effaith yr addysgu ar y cynnydd a wna disgyblion yn ddigon manwl. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i nodi a mynd i’r afael â’r agweddau penodol ar addysgu sydd angen eu gwella fwyaf.
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol addas i staff ar gyfer y blaenoriaethau maent yn eu nodi, er enghraifft i wella gwybodaeth disgyblion am seiniau llythrennau a’u dealltwriaeth o iaith fathemategol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/burry-port-community-primary-cy/](https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/burry-port-community-primary-cy/)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol